COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 30 HYDREF AM 10:00

Presennol

G Chapman – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | S Easterbrook | S J Griffiths | B Olorunnisola |
| M L Hughes | RM Granville | | |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| D Austin | A Bagley | MJ Williams | O Clatworthy |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Y Prif Weithredwr |
| David Williams | Cynrychiolydd Archwilio Cymru |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol– Y Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Anthony Veale | Cynrychiolydd Archwilio Cymru |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |

**52 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Y Cynghorydd Ross Penhale Thomas |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

| | |
|---|---|
| | |

## 253 Datganiadau o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 254. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion 17/07/25 a 18/09/25 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 255. Cofnod Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Cymorth Technegol adroddiad oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ynghylch cofnod Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd ynghlwm yn Atodiad 1 a gofynnodd am unrhyw sylwadau ynglŷn â'r adroddiad.<br><br>Nododd y Cadeirydd gam gweithredu heb ei gwblhau ynghylch Harbwr Porthcawl. Cadarnhaodd ei fod wedi cael sicrwydd y câi adroddiad cynhwysfawr yn manylu ar ei strwythur llywodraethu, llinellau adrodd, a chyllid ei gyflwyno i'r pwyllgor i ddatrys y dryswch presennol.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a gwnaeth sylwadau, fel oedd yn addas. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 256. Adroddiadau Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru adroddiad ar y Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25: diweddariad ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, oedd ynghlwm yn atodiad A. Dywedodd ei fod yn rhoi diweddariad ar ymarferiad diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 ar lefel genedlaethol ac fel ar 31 Gorffennaf 2025. Roedd hefyd yn rhoi rhywfaint o ddata ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar lefel leol.<br><br>Codwyd y pwyntiau a'r cwestiynau canlynol:<br><br>• Nododd y Fenter Twyll Genedlaethol 14,000 o barau gyda thraean yn cael eu hystyried yn risg uchel. Beth yw'r goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer dilyn y rhain?<br>• I ba raddau mae offer AI yn cael eu defnyddio<br>• Mae'r adroddiad yn nodi nad yw pump corff (heb fod yn Pen-y-bont ar Ogwr) wedi cau unrhyw barau. Pam, a beth yw'r gwersi?<br><br>Cafodd yr holl gwestiynau eu hateb gan Swyddogion.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Nododd y Pwyllgor Adroddiadau Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Atodiad A. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 257. Datganiad Cyfrifon wedi eu Harchwilio 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – y Prif Gyfrifydd adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon wedi eu harchwilio ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer 2024-25 i'w gymeradwyo. Dywedodd, fel rhan o'u harchwiliad, fod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud a bod y rhain wedi cael eu nodi yn 3.5 o'r adroddiad. Nid yw'r un o'r newidiadau o bwys. Fodd bynnag, maent wedi cael eu cywiro.<br><br>Ychwanegodd fod darlun anghywir wedi cael ei ddefnyddio ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, fyddai'n cael ei newid.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Grŵp – y Prif Gyfrifydd fod ar yr Archwilydd Penodedig eisiau'r Llythyr Cynrychiolaeth terfynol gan y Cyngor er mwyn cwblhau'r broses a'i gwneud yn bosibl cymeradwyo'r cyfrifon. Mae hwn wedi ei gynnwys fel Atodiad C a gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gytuno i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Swyddog Adran 151 lofnodi hwn.<br><br>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:<br><br>• Awgrym ar y 'Cyd-bwyllgorau' ar dudalen 108 y dylai gynnwys y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJC) yn y dyfodol.<br>• Cododd yr aelodau bryderon sylweddol ynghylch cyfrifon y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC), sydd â hanes o beidio â chael eu cynhyrchu ar amser ac sydd wedi gohirio archwiliad y Cyngor ei hun, gan awgrymu y gallai'r Cyngor fod yn contractio allan i gorff nad oedd yn aeddfed o ran Llywodraethu.<br>• Y dyddiad cau ar gyfer yr Archwiliad yn symud i Fis Medi 2026.<br><br>Atebwyd yr holl gwestiynau gan y Prif Swyddog a chynrychiolwyr Archwilio Cymru.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>• Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2024-25 (Atodiad A).<br>• Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Archwilio Cyfrifon yr archwilwyr penodedig (Atodiad B).<br>• Bod y Pwyllgor yn cytuno ar y Llythyr Cynrychiolaeth ar gyfer Archwilio Cymru ac iddo gael ei lofnodi gan Gadeirydd y Pwyllgor a'r Swyddog Adran 151 (Atodiad C). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 258. Llythyr Archwilio Blynyddol Ffurflen Harbwr Porthcawl 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – y Prif Gyfrifydd adroddiad oedd yn gofyn i'r Pwyllgor nodi Llythyr Archwilio Blynyddol 2024-25 ar gyfer Harbwr Porthcawl a oedd ynghlwm yn Atodiad A.<br><br>Esboniodd fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi tystysgrif ddiamod, gan gadarnhau nad oedd yna faterion yr oeddent yn dymuno tynnu sylw'r Pwyllgor atynt.<br><br>Roedd gan Aelod ddiddordeb mewn gweld yr adroddiad hwn yn dod yn ôl i'r Pwyllgor er mwyn deall yn iawn sut mae llywodraethu'n gweithio ar gyfer Harbwr Porthcawl. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod wedi siarad â'r Cyfarwyddwr ar ôl cyfarfod blaenorol a bod hyn yn rhywbeth a oedd ar y gweill.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor Lythyr Archwilio Blynyddol 2024-25 yn Atodiad A. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 259. Cynnydd yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwiliad Mewnol 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio o fewn y Cynllun Archwilio Mewnol Seiliedig ar Risg 2025-26 oedd wedi cael ei gymeradwyo.<br><br>Esboniodd fod yr adroddiad cynnydd a oedd ynghlwm yn Atodiad A yn manylu ar statws pob adolygiad a gynlluniwyd, y farn archwilio a nifer unrhyw argymhellion blaenoriaeth uchel, canolig neu isel a wnaed i wella'r amgylchedd rheoli. Nodwyd rhagor o fanylion yn adran 3 o'r adroddiad.<br><br>Tynnodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru sylw'r Aelodau at Dabl 1 yn yr adroddiad oedd yn crynhoi'r Cynnydd yn Erbyn Cynllun Archwilio 2025-26, gyda Thabl 2 yn tynnu sylw at y Farn Archwilio a gymhwyswyd i Archwiliadau fel ar 30 Medi 2025. Roedd Tabl 3 yn crynhoi'r archwiliadau a ddygwyd ymlaen ac roedd eu manylion yn llawn yn Atodiad B i'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Tynnodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru sylw at ddiweddariad ers i'r adroddiad gael ei ddrafftio oedd ynghylch Ysgol Gyfun Maesteg. Roedd yr archwiliad dilynol bellach wedi cael ei gwblhau ac yn dangos gwelliannau; roedd yr archwiliad dilynol yn Ysgol Gynradd Penybont hefyd wedi cael ei archebu ar gyfer mis Tachwedd.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd aelodau'r Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2025-26. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 260. Monitro Argymhellion yr Archwiliad Mewnol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru ddatganiad safbwynt ar argymhellion yr archwiliad mewnol a wnaed, a weithredwyd ac oedd heb eu gweithredu hyd at 30 Medi 2025 a gofynnodd i'r Aelodau ystyried y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Esboniodd fod Atodiad A yn rhoi statws argymhellion yr archwiliad mewnol blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed fel ar 30 Medi 2025. Roedd 26 o argymhellion wedi cael eu gwneud ac roedd 12 ohonynt eisoes wedi cael eu gweithredu a dyddiad targed wedi ei osod ar gyfer y 14 oedd yn weddill. Roedd rhagor o wybodaeth yn adran 3 o'r adroddiad.<br><br>Dywedodd fod y canlynol wedi cael eu cwblhau ers ysgrifennu'r adroddiad:<br><br>• Yr un argymhelliad blaenoriaeth uchel (polisi Gorfodi Parcio).<br><br>• Y ddau argymhelliad blaenoriaeth ganolig ar gyfer Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith a Hawliau Tramwy |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys yr adroddiad a buont yn ystyried y wybodaeth a roddwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 261. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024/25 - DRAFFT

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn iddynt gael ystyried a oedd yn ffurfio crynodeb cytbwys o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod 2024/25.<br><br>Roedd yr adroddiad ynghlwm yn Atodiad A ac roedd yn egluro Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2024/25, sut y mae wedi cydymffurfio â'i Gylch Gorchwyl, ac yn amlinellu ei berfformiad yn ystod y flwyddyn.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Yn amodol ar sylwadau pellach gan yr Aelodau, cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phenderfynu ei fod yn ffurfio crynodeb cytbwys o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod 2024/25 i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 262. Diweddariad ar y Traciwr Rheoleiddio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol adroddiad oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ynghylch y Traciwr Rheoleiddio a ddiweddarwyd hyd at ddiwedd chwarter 2 (Ch2) 2025-26, ac argymhellion oedd |

| | |
|---|---|
| | wedi cael eu cau ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2025 (chwarter 3 (Ch3) 2024-25).<br><br>Dywedodd fod Paragraffau 3.3 i 3.8 isod yn crynhoi manylion dogfen lawn y Traciwr Rheoleiddio yn Ch2, a newidiadau ers yr adroddiad diwethaf i'r pwyllgor hwn ym mis Ebrill 2025 ar gyfer chwarter 3.<br><br>Esboniodd y Cadeirydd nad oedd y Pwyllgor yn gweld adroddiadau gan reoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu Estyn yn awtomatig. Mynegodd bryder sylweddol fod argymhelliad AGC o 2022 wedi cael ei ailadrodd yn 2025.<br><br>Ychwanegodd fod y statws Coch yn rhoi argraff gamarweiniol i'r cyhoedd pan fydd gwaith sylweddol ar y gweill i ddatrys problemau hirdymor. Dywedodd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol fod yn rhaid i hwn aros yn goch gan ei fod wedi cael ei nodi fel risg gorfforaethol sylweddol er bod gwaith ar y gweill i'w ddatrys.<br><br>Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn derbyn adroddiad trosolwg gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol i roi sicrwydd ynghylch argymhellion AGC.<br><br>Cynigiodd y Prif Weithredwr y byddai olrheinwyr yn y dyfodol, ar gyfer eitemau "Coch", yn cynnwys paragraff ansoddol gan y Cyfarwyddwr perthnasol yn rhoi cyd-destun i'r gwaith oedd yn cael ei wneud, yn hytrach nag un marc coch yn unig.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y pwyntiau crynodeb a chynnwys Atodiad 1 ac Atodiad 2 a chodwyd unrhyw faterion o bryder i'w dilyn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

**263. Asesiad Perfformiad y Panel**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganfyddiadau Asesiad Perfformiad y Panel a gynhaliwyd rhwng 16-19 Medi 2025, a'r camau nesaf y cytunwyd arnynt.<br><br>Roedd y canfyddiadau wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a'r cyflwyniad a roddwyd ynghlwm yn |

| | |
|---|---|
| | Atodiad 2.<br><br>Gofynnodd yr aelodau am yr amserlen ar gyfer y cynllun gweithredu. Dywedodd y Prif Weithredwr y câi ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Tachwedd gyda chynllun gweithredu llawn yn cael ei ddarparu o gwmpas y Nadolig.<br><br>Yn dilyn hyn, cytunodd y pwyllgor i ohirio trafodaeth lawn a chynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i drafod Asesiad Perfformiad y Panel yn llawn unwaith y byddai ymateb ffurfiol y Cyngor yn barod. Câi dyddiad ar gyfer hyn ei gytuno maes o law.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>• Bu'r Pwyllgor yn ystyried canfyddiadau Asesiad Perfformiad y Panel yn Atodiad 1 ac Atodiad 2.<br>• Bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau nesaf wrth ymateb i Asesiad Perfformiad y Panel (gan gynnwys rôl y Cyngor Cyffredinol) fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 3.6, 3.7 a 3.8 o'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

## 264. Blaenraglen Waith 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2025-26.<br><br>Yn dilyn trafodaethau ar yr eitem flaenorol, awgrymwyd bod Asesiad Perfformiad y Panel, oedd wedi ei drefnu'n wreiddiol ar gyfer y cyfarfod ym mis Tachwedd, yn cael ei symud o'r Flaenraglen Waith a'i aildrefnu ar gyfer y cyfarfod Arbennig, unwaith y byddai'r dyddiad hwn wedi cael ei gytuno.<br><br>Gofynnodd Aelod a allai'r eitem 'Proses Gwynion' oedd i ddod fod yn ymchwiliad manwl er mwyn rhoi mwy o ddyfnder ynghylch yr hyn y mae pobl yn cwyno amdano a nodi unrhyw dueddiadau. Esboniodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod dadansoddiad hwn wrthi'n cael ei weithio i mewn i'r adroddiad cwynion blynyddol nesaf.<br><br>Gofynnodd Aelod am ychwanegu adroddiad yn y dyfodol agos ynglŷn â llywodraethu cyrff allanol, yn |

| | |
|---|---|
| | benodol Bwrdd Cadwraethwyr Coety Wallia. Cytunodd y Cadeirydd â hyn a gofynnodd i'r Swyddog Monitro ddarparu adroddiad ar gyfer y Pwyllgor yn amlinellu strwythur cyfreithiol y corff hwn.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Flaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 wedi ei diweddaru ac fe wnaethant ei chymeradwyo yn amodol ar y newidiadau ychwanegol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

**265. Eitemau brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Hydref 2025 |

I wylio rhagor o'r ddadl a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40.